Sinfonia Cymru

# Time Machine

Chamber Orchestra with Guitarist Sean Shibe

*Cerddorfa Siambr gyda'r Gitarydd Sean Shibe*

**Aberystwyth**
Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth Arts Centre
Friday | Dydd Gwener 23.2.24 @ 19:00

**Criccieth**
Neuadd Goffa Criccieth Memorial Hall
Saturday | Dydd Sadwrn 24.2.24 @ 19:00

**Cardiff | Caerdydd**
Royal Welsh College of Music and Drama
Sunday | Dydd Sul 25.2.24 @ 19:30



Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth Arts Centre
Neuadd Goffa Criccieth Memorial Hall
Royal Welsh College of Music & Drama
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
PRS Foundation
Foyle Foundation
Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales

## About Sinfonia Cymru

We're all about doing things differently, mixing things up and making sure everyone has a good time. If you're in the audience, on stage, or a newsletter subscriber, we'll do all we can to ensure you get the best experience.

Our mission is simple, we want to make sure everyone in Wales has the opportunity to enjoy quality musical experiences. We go the extra mile to make our concerts affordable and accessible. We bring our music to the heart of Welsh communities, performing in places our audiences feel at home: from village halls to pubs, from fruit and veg shops to care homes, schools and beyond! We do everything we can to ensure you enjoy your time with us.

When it comes to the music, we're just going to say we're really good at it. We work with some of the best under 30s musicians in the world and when they're with us, we help them to grow. We don't tell them what to do. We support them to take the lead. We encourage them to curate and programme their own concerts and we inspire them to explore new ways of collaborating. This is why our concerts are fresh, energising, and memorable for our audiences.

When you come to our concerts, we want you to feel relaxed and welcomed. We hope you find the music thrilling, inspiring and emotional - and we promise it'll never be unremarkable, and never boring. It is mainly classical, but we give our musicians the support to put their own unique stamp on it. You'll often see us mixing styles, by throwing in some jazz, blues, folk, rock, pop, and music from around the world. Expect the unexpected, and always high quality.

## Ynglŷn â Sinfonia Cymru

Ry'n ni yma i wneud pethau'n wahanol, i ysgwyd pethe a sicrhau bod pawb yn cael amser da. Os wyt ti yn y gynulleidfa, ar y llwyfan neu'n darllen ein cylchlythyr, ry'n ni'n gwneud popeth o fewn ein gallu i sicrahu bod ti'n cael profiad o safon.

Mae ein nôd yn syml, ry'n ni am sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael cyfle i fwynhau profiadau cerddorol o safon. Ry'n ni'n mynd gam ymhellach i sicrahu bod ein cyngherddau yn fforddadwy ac yn hygyrch. Ry'n ni'n dod â'n cerddoriaeth i galon y gymuned Gymreig, yn perfformio mewn lleoliadau sy'n sicrhau bod y gynulleidfa'n teimlo'n gartrefol: o neuaddau pentref i dafarndai, o siopau ffrwythau a llysiau i gartrefi gofal, ysgolion a thu hwnt! Ry'n ni'n gwneud popeth posibl i sicrahu bod chi'n mwynhau eich amser gyda ni.

Pan mae'n dod i'r gerddoriaeth, ry'n ni'n dda. Ry'n ni'n gweithio gyda rhai o'r cerddorion ifanc gorau yn y byd, pob un dan 30 oed. Pan mae nhw gyda ni, ry'n ni'n eu helpu i dyfu. Byddwn ni byth yn dweud wrthynt beth i wneud. Byddwn ni yn eu cefnogi nhw i guradu cyngherddau eu hunain ac yn eu ymbweru i archwilio ffyrdd newydd o gydweithio. Dyma pam mae ein cyngherddau ni yn ffres, yn egniol ac yn gofiadwy i'n cynulleidfaoedd.

Pan mae'n dod i'n cyngherddau, ry'n ni am i chi deimlo'r croeso. Ry'n ni'n anelu i'ch cyffroi, eich ysbrydoli a'ch cyffwrdd gyda'n cerddoriaeth arbennig. Bydd ein cyngherddau ni byth yn ddi - nod a byth yn ddiflas. Cerddoriaeth glasurol fydd y mwyafrif ond ry'n ni'n cefnogi ein cerddorion i roi eu stamp unigryw ar bob darn. Byddwch chi hefyd yn gweld ni'n perfformio cymysgedd o arddulliau eraill; jazz, blues, gwerin, roc a phop a cherddoriaeth o bob cwr o'r byd. Disgwyliwch yr annisgwyl, a safonol bob amser.

## About Sean Shibe

A former BBC New Generation Artist, Borletti-Buitoni Trust Fellowship 2012 winner, Royal Philharmonic Society 2018 Young Artist Award winner and recipient of the 2022 Leonard Bernstein Award, Sean Shibe continues to prove himself a truly original mind at the frontier of contemporary classical music.

This season sees him in recital at iconic venues across Europe including Concertgebouw Amsterdam, Elbphilharmonie Hamburg, Philharmonie de Paris, Konzerthaus Wien and Wigmore Hall as he takes up the title of ECHO Rising Star.
Ever keen to explore new cooperative dynamics, Shibe regularly collaborates with soloists and ensembles alike. In recent years, he has worked with the Hallé, BBC Singers, Manchester Collective, Danish String Quartet, Krzysztof Urbański, Christoph Eschenbach, Taavi Oramo, Allan Clayton, Ben Johnson, and performance artist Marina Abramović.

Shibe is an ardent supporter of contemporary music, regularly taking a hands-on approach to new commissions and programmes and working with composers to experiment with and expand the guitar repertoire. He is equally committed to traditional repertoire, regularly pairing bold, new pieces with his own transcriptions of J.S. Bach's lute suites and seventeenth-century Scottish lute manuscripts.

Often praised for his programming, Shibe's discography continues to garner recognition from critics and audiences all over. His latest album Broken Branches was nominated for the 2024 GRAMMY Award for Best Classical Solo Vocal Album and his solo album Lost & Found was awarded the OPUS Klassik 2023 Award for Solo Instrument, adding to his OPUS Klassik 2021 Award for Chamber Music Recording, 2019 Gramophone Concept Album of the Year Award and 2021 Gramophone Instrumental Award respectively.

Born in Edinburgh in 1992, Shibe studied at Royal Conservatoire of Scotland under Allan Neave. He studied further at Kunst-Universität Graz in Austria, in Italy under Paolo Pegoraro, and is now a Guitar Professor at Guildhall School of Music and Drama.

> ***"Shibe's music-making is masterful, beautiful and convincing in every way"***
>
> ***- The Times***

## Ynglŷn â Sean Shibe

Ac yntau'n un o gyn-Artistiaid Cenhedlaeth Newydd y BBC, enillydd Gwobr Borletti-Buitoni 2012, enillydd Gwobr Artist Ifanc y Royal Philharmonic Society 2018 ac enillydd Gwobr Leonard Bernstein 2022, mae Sean Shibe yn parhau i brofi ei fod yn berson cwbl wreiddiol sydd ar flaen y gad ym maes cerddoriaeth glasurol gyfoes.

Y tymor hwn bydd yn cyflwyno datganiadau mewn canolfannau eiconig ledled Ewrop, yn cynnwys Concertgebouw Amsterdam, Elbphilharmonie Hamburg, Philharmonie de Paris, Konzerthaus Wien a'r Wigmore Hall wrth iddo gymryd y teitl ECHO Rising Star.

Ac yntau bob amser yn awyddus i archwilio deinameg gydweithredol newydd, mae Shibe yn cydweithredu'n gyson gydag unawdwyr ac ensemblau fel ei gilydd. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, mae e wedi gweithio gyda'r Hallé, BBC Singers, Manchester Collective, Danish String Quartet, Krzysztof Urbański, Christoph Eschenbach, Taavi Oramo, Allan Clayton, Ben Johnson, a'r artist perfformio Marina Abramović.

Mae Shibe yn gefnogwr brwd o gerddoriaeth gyfoes, gan gymryd agwedd ymarferol at gomisiynau a rhaglenni newydd, a gweithio gyda chyfansoddwyr i arbrofi gyda repertoire y gitâr a'i ehangu. Mae e hefyd wedi ymrwymo i'r un graddau â'r repertoire traddodiadol, ac yn gyson yn paru darnau newydd, beiddgar, â'i drawsgrifiadau ei hun o gyfansoddiadau J.S. Bach i'r liwt a llawysgrifau Albanaidd i'r liwt o'r ail ganrif ar bymtheg.

Ac yntau'n aml yn cael ei ganmol am ei raglennu, mae disgograffi Shibe yn parhau i ennill cydnabyddiaeth gan feirniaid a chynulleidfaoedd ym mhobman. Enwebwyd ei albwm diweddaraf, Broken Branches, ar gyfer Gwobr GRAMMY 2024 am yr Albwm Unawd Clasurol Lleisiol Gorau ac enillodd ei albwm unawdol Lost & Found Wobr OPUS Klassik 2023 i Offeryn Unigol, gan ychwanegu at ei anrhydeddau eraill – Gwobr OPUS Klassik 2021 am Recordiad Cerddoriaeth Siambr, Gwobr Albwm y Flwyddyn Gramophone Concept 2019 a Gwobr Gramophone Instrumental 2021.

Ganed Shibe yng Nghaeredin yn 1992, ac aeth ymlaen i astudio yn y Royal Conservatoire of Scotland dan Allan Neave. Astudiodd ymhellach yn y Kunst-Universität Graz yn Awstria, yn yr Eidal dan Paolo Pegoraro, a bellach mae'n Athro y Gitâr yn y Guildhall School of Music and Drama.

# Player Spotlight

## Harry Lovell-Jones Age | Oed: 26

I was born and grew up in Cardiff and enjoyed taking part in various county and national music ensembles. I love the energy that Sinfonia Cymru brings to every rehearsal and performance. As an orchestral percussionist, it can be difficult to forge performance opportunities with smaller groups so the closeness and palpable togetherness that this brings is special for me. This was particularly apparent in our project with Abel Selaocoe last year. The groove-based nature of his music meant that the players had to listen to and trust each other like few other experiences that I've been a part of. Outside of Sinfonia Cymru, I play with various professional orchestras and a particular highlight was playing timpani in Mahler's 'Symphony No.1' at the BBC Proms with the BBC Symphony Orchestra in Summer 2022.

Cefais fy ngeni a'm magu yng Nghaerdydd, a chael cyfle i fwynhau cymryd rhan mewn nifer o ensemblau cerddoriaeth ar lefel sirol a chenedlaethol. Rydw i wrth fy modd â'r egni mae Sinfonia Cymru'n ei gyflwyno i bob ymarfer a pherfformiad. Fel chwaraewr offerynnau taro mewn cerddorfa, gall fod yn anodd creu cyfleoedd i berfformio gyda grwpiau llai o faint, felly mae'r teimlad o agosatrwydd a chyd-berthynas sy'n dod yn sgil hyn yn arbennig iawn i mi. Roedd hyn yn arbennig o amlwg y llynedd, yn ein prosiect gydag Abel Selaocoe. Roedd natur unigryw ei gerddoriaeth yn golygu bod raid i'r offerynwyr wrando ar, ac ymddiried yn, ei gilydd ar lefel ddyfnach na'r rhan fwyaf o'r profiadau rwyf wedi bod yn rhan ohonynt. Ar wahân i Sinfonia Cymru, rydw i hefyd yn chwarae gyda nifer o gerddorfeydd proffesiynol, ac un uchafbwynt arbennig oedd chwarae'r timpani yn Symffoni Rhif 1 gan Mahler yng nghyngherddau'r BBC Proms gyda Cherddorfa Symffoni'r BBC yn haf 2022.





## Emily Newman Age | Oed: 29

I was born in Berkhamsted, Hertfordshire. I attended Chetham's School of Music followed by The Royal College and Royal Academy of Music. I'm currently based in London but freelancing all over the UK. As well as the modern bassoon I play baroque and classical bassoon which are used for Historically Informed Performances. My favourite type of performance is one where I feel that I have connected with the audience, whether that is as part of a symphony orchestra or with a smaller group. I enjoy playing with Sinfonia Cymru as it's such a great atmosphere and friendly environment. My favourite project with Sinfonia Cymru so far has been the Mainly Village Halls Tour where we performed some of my arrangements and other works for wind trio. I loved seeing how different audiences enjoyed the music and how they connected with it. I have a connection to Bala, North Wales where my grandma was evacuated to in WW2. The house overlooked Llyn Tegid and her grandparents are buried at a church nearby.

Cefais fy ngeni yn Berkhamsted, Swydd Hertford, a derbyn fy addysg yn Ysgol Gerdd Chetham cyn symud i Lundain i astudio yn y Royal College of Music a'r Royal Academy of Music. Ar hyn o bryd rwy'n byw yn Llundain, ond yn gweithio'n llawrydd ym mhob rhan o'r DU. Yn ogystal â'r basŵn modern, rydw i'n chwarae'r basŵn baróc a'r un clasurol – offerynnau sy'n cael eu defnyddio mewn Perfformiadau Hanesyddol Wybodus. Fy hoff fath o berfformiad yw un lle rwy'n teimlo fy mod wedi cysylltu â'r gynulleidfa – p'un ai fel rhan o gerddorfa symffoni neu gyda grŵp llai o faint. Rydw i wrth fy modd yn chwarae gyda Sinfonia Cymru – mae'r awyrgylch yn grêt a phawb mor gyfeillgar. Fy hoff brosiect gyda Sinfonia Cymru hyd yma yw'r daith Mainly Village Halls, lle buom yn perfformio rhai o 'nhrefniannau i a gweithiau eraill ar gyfer triawd chwythbrennau. Ro'n i wrth fy modd yn gweld sut roedd gwahanol gynulleidfaoedd yn mwynhau'r gerddoriaeth, ac yn ymgysylltu â hi. Mae gen i gysylltiad â'r Bala, gogledd Cymru, lle cafodd fy nain ei hanfon fel efaciwî yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Roedd y tŷ yn edrych dros Llyn Tegid, a chladdwyd ei nain a'i thaid ym mynwent yr eglwys gyfagos

## Lucia Porcedda Age | Oed: 24

I was born in Cagliari, Italy where I lived until I was 19. When I first played with Sinfonia Cymru, I immediately noticed a very special approach to making music. In this orchestra, there is a clear desire to connect with the audience and more broadly with everyone involved in the process of making a concert possible. I feel like all opinions are taken into account in order to always present more innovative and accessible musical projects. and thats such a special and unfortunately still unusual attitude in musical organisations! Being based in London, I juggle my life as freelance musician in this eclectic city and try to explore the UK as much as I can when travelling around for concerts. I love visiting Wales while playing with Sinfonia Cymru, can't wait to see more and more of it!

---

Cefais fy ngeni yn Cagliari, yr Eidal, ac yno ro'n i'n byw nes fy mod yn 19 oed. Y tro cyntaf i mi chwarae gyda Sinfonia Cymru, sylwais ar unwaith ar eu hagwedd gwbl arbennig tuag at greu cerddoriaeth. Yn y gerddorfa hon mae yna awydd clir i gysylltu â'r gynulleidfa, ac yn ehangach â phawb sy'n gysylltiedig â'r broses o gynnal cyngerdd. Teimlaf fod barn pawb yn cael eu cymryd i ystyriaeth er mwyn sicrhau bod pob prosiect cerddorol yn cael ei gyflwyno mewn modd mwy arloesol a hygyrch – ac, yn anffodus, mae'r agwedd honno'n un hynod ac anarferol mewn sefydliadau cerddorol! A minnau bellach wedi fy lleoli yn Llundain, rwy'n jyglo fy ngwaith fel cerddor llawrydd yn y ddinas eclectig hon, ac yn ceisio gweld cymaint o'r DU ag y gallaf wrth deithio i gymryd rhan mewn cyngherddau mewn gwahanol ardaloedd. Rydw i wrth fy modd yn ymweld â Chymru pan rwy'n chwarae gyda Sinfonia Cymru ac yn edrych 'mlaen yn fawr at weld mwy a mwy o'r wlad!





## Joe Howson Age | Oed: 28

I was born and raised in Bradford (but spent many family holidays hiking and camping in Eryri), then studied in London at Trinity Laban and at the Royal College of Music. Since then I've worked freelance in a variety of different roles, from *lied* accompanist to ballet pianist to leading music workshops for learners with SEN. Sinfonia Cymru gigs are genuinely the highlight of my calendar, I know there'll always be great musicians to work with and wonderful staff there to support us. What makes SC stand out to me is their inventive programming – the blend of classical and modern, well-known and neglected works, as well as their commitment to programming female composers. For example, my favourite SC concert so far is probably a programme of piano quartets by Frank Bridge, Joaquin Turina, and Dora Pejačević – three fantastic late-romantic composers whose music isn't performed nearly enough.

---

Cefais fy ngeni a'm magu yn Bradford (a mwynhau llawer o wyliau gyda'r teulu yn heicio a gwersylla yn Eryri), cyn mynd i Lundain i astudio yng ngholeg Trinity Laban a'r Royal College of Music. Ers hynny rydw i wedi gweithio'n llawrydd mewn nifer o rolau gwahanol, o gyfeilydd lied i bianydd ballet, ac i arwain gweithdai cerddoriaeth i fyfyrwyr a chanddynt anghenion addysgu arbennig. Does dim amheuaeth mai gigs Sinfonia Cymru yw uchafbwynt fy nghalendr; mae yna bob amser gerddorion ardderchog i weithio gyda nhw, a staff gwych ar gael i roi bob cefnogaeth i ni. I mi, yr hyn sy'n gwneud SC yn arbennig yw eu rhaglennu dyfeisgar – y cyfuniad o'r clasurol a'r modern, gweithiau adnabyddus a rhai a anghofiwyd, yn ogystal â'u hymrwymiad i raglennu cyfansoddwyr benywaidd. Er enghraifft, mae'n debyg mai fy hoff gyngerdd SC hyd yma yw rhaglen o bedwarawdau i'r piano gan Frank Bridge, Joaquin Turina, a Dora Pejačević – tri chyfansoddwr gwych o ddiwedd y cyfnod rhamantaidd nad yw eu cerddoriaeth yn cael ei pherfformio'n hanner digon aml.

# About the programme

We are delighted to welcome you to our series of concerts with the extraordinary, virtuosic and subversive multi-guitarist Sean Shibe. We're especially excited to hear him perform a brand-new concerto by Welsh composer David John Roche, a co-commission with Britten Sinfonia. And we are thrilled to be part of the first ever collaboration between two artists who have won awards internationally and have followed each other's work for many years.

Together, we have curated "Time Machine", a mix of pieces which hum with optimism and energy, all written by composers living in the UK and USA today. Music and machines combine, and art takes inspiration from technology, on- and off-screen.

The Truman Show and Plan of the City depict very different escapes to the future. Philip Glass's music was used in the 1998 film to accompany Truman's (spoiler alert!) attempt to flee the only land he has ever known, while Judd Greenstein's music is performed alongside "Plan of the City", a film by Joshua Frankel, which shows the landscape itself taking off…to resettle on Mars.

Glass and Greenstein are joined in tonight's programme by fellow New Yorkers: Pamela Z, whose piece "Ethel Dreams of Temporal Disturbances" references the big and small screen through a surreal relay of captured sounds; Julia Wolfe, whose recording of twirly vocals inspired "Reeling"; and giant of contemporary music Steve Reich, whose "Duet" jumpstarts our show.

Born in York (the original UK one!), Laura Snowden's "Into the Light" and British-American Freya Waley-Cohen's Amulet (premiered by Sean Shibe in Cardiff in 2021) provide time for reflection. Radiohead's Jonny Greenwood transports us back to the USA and music for the big screen, with themes from the Academy Award–winning film "There Will Be Blood".

With this programme, we pose the questions: What does the classical guitar sound like today? And what will it sound like in the future? As we enter a time when AI could threaten the future of live music, are machines our friend, or a foe from which to escape?



# Ynglŷn â'r rhaglen

Pleser o'r mwyaf i ni yw eich croesawu i'n cyfres o gyngherddau gyda Sean Shibe – y gitarydd anhygoel, amryddawn a gwrthdroadol. Rydym yn edrych ymlaen yn arbennig at wrando arno'n perfformio concerto newydd sbon gan y cyfansoddwr o Gymru, David John Roche – gwaith sy'n gyd-gomisiwn gyda'r Britten Sinfonia. Ac rydym wrth ein bodd yn cael bod yn rhan o'r cydweithrediad cyntaf erioed rhwng dau artist sydd wedi ennill nifer o wobrau rhyngwladol ac sydd wedi dilyn gwaith ei gilydd ers blynyddoedd lawer.

Gyda'n gilydd, rydym wedi curadu "Time Machine" – cyfuniad o ddarnau sy'n gyforiog o optimistiaeth ac egni, a'r cyfan wedi eu hysgrifennu gan gyfansoddwyr sy'n byw yn y DU a'r UDA heddiw. Mae cerddoriaeth a pheiriannau'n cyfuno, a chelf yn cael ei hysbrydoli gan dechnoleg, ar y sgrin ac oddi arni.

Mae The Truman Show a Plan of the City yn cyfleu dwy ffordd gwbl wahanol o ddianc i'r dyfodol. Defnyddiwyd cerddoriaeth Philip Glass yn y ffilm o 1998 i gyd-fynd ag ymdrech Truman (rhybudd – datgeliad!) i ffoi o'r unig wlad sy'n gyfarwydd iddo, tra bod cerddoriaeth Judd Greenstein yn cael ei pherfformio ochr yn ochr â Plan of the City, ffilm gan Joshua Frankel, sy'n dangos y tirlun ei hun yn codi i'r gofod … ac yn ailsefydlu ar y blaned Mawrth.

Yn y rhaglen heno ymunir â Glass a Greenstein gan gyd-artistiaid o Efrog Newydd: Pamela Z, y mae ei darn "Ethel Dreams of Temporal Disturbances" yn cyfeirio at y sgrin fach a'r fawr drwy  gyfres swrrealaidd o seiniau wedi'u dal; Julia Wolfe, fu'n ysbrydoliaeth i "Reeling" gyda'i recordiad o gerddoriaeth leisiol; a Steve Reich, cawr y byd cerddoriaeth gyfoes, a chyfansoddwr "Duet" sy'n rhoi cychwyn cyffrous i'n sioe.

Mae "Into the Light" gan Laura Snowden, a aned yn Efrog (yr un gwreiddiol yn y DU!) ac "Amulet"  gan Freya Waley-Cohen, sydd o dras Prydeinig-Americanaidd (cyflwynwyd perfformiad cyntaf y darn gan Sean Shibe yng Nghaerdydd yn 2021) yn rhoi cyfle i fyfyrio. Mae Jonny Greenwood, aelod o Radiohead, yn mynd â ni'n ôl i'r UDA a cherddoriaeth ar gyfer y sgrin fawr, yn cynnwys themâu o'r ffilm "There Will Be Blood", enillydd Gwobr Academy.

Gyda'r rhaglen hon rydym yn gofyn y cwestiynau: Pa fath o sain sydd i'r gitâr clasurol ar hyn o bryd? A sut bydd e'n swnio yn y dyfodol? Wrth i ni wynebu cyfnod lle gallai AI beryglu dyfodol cerddoriaeth fyw, ydy peiriannau'n gyfaill i ni, neu'n hytrach yn elyn i ddianc oddi wrtho?

## Programme | Rhaglen

| | |
|---|---|
| Steve Reich | Duet (1993) 5' *Violins \| Ffidil: Haim Choi & Maria Ismini Anastasiadou* |
| Laura Snowden | Into the Light (2021) 6' |
| Julia Wolfe | Reeling (2012) 6' |
| Pamela Z | Ethel Dreams of Temporal Disturbances (2005) 7' |
| Judd Greenstein | Change (2011) 13'<br>*Written to accompany Plan of the City (2011), created and directed by Joshua Frankel* |

*- Interval | Egwyl -*
*- 20 minutes | 20 munud -*

| | |
|---|---|
| Freya Waley-Cohen | Amulet for Guitar (2021) 6' |
| Philip Glass arr. David John Roche | Truman Suite (World Premiere) 10' |
| Jonny Greenwood | Themes from "There Will Be Blood (2007)" 13'<br>I. Prospector’s Arrive<br>II. Oil<br>III. Hope of New Fields<br>IV. Prospector's Quartet |
| David John Roche | Chorus in Alto (World Premiere) 14' |



# Sinfonia Cymru

## Violin | Ffidil


Haim Choi*


Ezo Dem Sarici


Maria Ismini Anastasiadou


Elliot Kempton

## Viola | Fiola


Georgie Davis


Hannah Lowri Roberts

## Cello | Soddgrwth


William Clark-Maxwell


Abby Lorimier

## Flute | Ffliwt


Mina Middleton

## Oboe | Obo


Francesca Cox

## Clarinet | Clarinét


Lucia Porcedda

## Bassoon | Baswn


Emily Newman

## Double bass | Bâs dwbl


Marcus Silva

## Percussion | Offerynnau Taro


Harry Lovell-Jones

## Piano | Gweiadur


Joe Howson

*Leader & Director | Blaenwr a Cyfarwyddwraig*

### Board of Directors | Bwrdd Cyfarwyddwyr

| | |
|---|---|
| Wiard Sterk | *Chair \| Cadeirydd* |
| Russell Bright | |
| Fflur Jones | |
| Llinos Madeley | |
| Jo Marriott | |
| Catrin Plumley | |
| Simone Willis Tansley | |
| Aled Tudor | |
| Ali Vennart | |

### Management | Tîm Rheoli

| | |
|---|---|
| Tammy Daly | *General Manager* |
| | *Rheolwr Cyffredinol* |
| Heulwen Davies | *Marketing Consultant* |
| | *Ymgynghorydd Marchnata* |
| Joseph Evans | *Concerts & Projects Manager* |
| | *Rheolwr Cyngherddau a Phrosiectau* |
| Becky Mercer | *Audience & Communities Coordinator* |
| | *Cydlynydd Cynulleidfa a Chymunedau* |
| Caroline Tress | *Chief Executive* |
| | *Prif Weithredwr* |
| Michael Triggs | *Concerts & Projects Assistant* |
| | *Cynorthwy-ydd Cyngherddau a Phrosiectau* |

### Artistic Associates | Cymrodorion Artistig

| | |
|---|---|
| Gareth Jones | *Founder & Artistic Advisor* |
| | *Sylfaenydd a Chynghorydd Artistig* |
| Simmy Singh | *Creative Associate* |
| | *Cydymaith Creadigol* |

# Support our work
# Cefnogwch ein gwaith

**Did you know that we're a registered charity?**
The experiences we create are only made possible by the continued support of Arts Council of Wales and our sponsors for 2023/24. To ensure a bright future for our audiences and our musicians, you can support us by donating through the 'Support' page on our website or contact caroline@sinfonia.cymru to talk about leaving Sinfonia Cymru a gift in your will.

**Oeddet ti'n gwybod ein bod ni'n elusen gofrestredig?**
Mae'r profiadau rydym yn eu darpau yn bosib diolch i gefnogaeth gan Gyngor y Celfyddydau Cymru a'n noddwyr am eleni. I sicrhau dyfodol disglair i'n cynulleidfaoedd a'n cerddorion, gallwch gefnogi trwy roi cyfraniad trwy en tudalen 'Cefnogi' ar ein gwefan neu cysylltwch â caroline@sinfonia.cymru i drafod rhoi cyfraniad i'r gerddorfa yn eich ewyllys.

For more information and to sign up to our newsletter, visit:

Am wybodaeth bellach ac i danysgrifio i'n cylchlythyr, ewch i:

www.sinfonia.cymru

@sinfoniacymru

Seen on sky arts

## **Regenerate:** Seasons for Change

Breathing new life into the timeless beauty of Vivaldi, Vaughan Williams and traditional folk music, Simmy Singh, Delia Stevens and Will Pound use the concert platform to reimagine the future of our planet.

This extraordinary programme unveils a world where music becomes a catalyst for hope and imagination, fearlessly challenging the status quo facing the next generation.

---

Gan roi bywyd newydd i harddwch oesol Vivaldi, Vaughan Williams a cherddoriaeth werin draddodiadol, mae Simmy Singh, Delia Stevens ac Will Pound yn defnyddio'r llwyfan cyngerdd i ailddychmygu dyfodol ein planed.

Mae'r rhaglen ryfeddol hon yn dadorchuddio byd lle mae cerddoriaeth yn dod yn gatalydd ar gyfer gobaith a dychymyg, gan herio'r status quo sy'n wynebu'r genhedlaeth nesaf yn ddiofn.

**Programme features reimagining a of Vivaldi' Four Seasons and Vaughan Williams' Lark Ascending.**

| | |
|---|---|
| 14.06.24 | Neuadd Goffa Criccieth Memorial Hall |
| 15.06.24 | Royal Welsh College of Music and Drama |
| 16.06.24 | Neuadd Goff Pontyberem Memorial Hall |
| 27.07.24 | MusicFest Aberystwyth |

*Further dates to be announced.*





"Watching this performance by Sinfonia Cymru was truly inspiring. To think that a work that is centuries old can live with such vitality and joy... I'm incredibly moved by it."

– Errollyn Wallen CBE

# Hafan Spotlight: Chwefror | February 2024

In 2023, we vacated our office and became a nomadic-working organisation. Instead of paying for an office, the Sinfonia Cymru team now works from home, from tour, and from "Hafan" locations (schools and performance venues) around Wales, local to where we live. This week, we have been rehearsing our programme with Sean Shibe at Aberystwyth Arts Centre, which is one of our Hafan venues.

The Hafan relationship enables us to get to know our communities better – the money we save in office rent is invested instead in community projects local to those spaces, putting more money in the pockets of our young professional musicians, and enabling us to meet more people in the community.

We LOVE our Hafan relationship with Aberystwyth Arts Centre. One of the first things that happened once we'd embarked on this partnership was that they invited Sinfonia Cymru Marketing Consultant, Heulwen, to work regularly from their Marketing office – providing a desk, a mug, and even an invitation to the staff Christmas party!

This week Sinfonia Cymru players have been working alongside "town and gown" community orchestra Philomusica of Aberystwyth. They've been workshopping music written by composers from around Wales as part of the Cerddwn composer development scheme run by Aberystwyth University, in collaboration with conductor and Aberystwyth University Director of Music Iwan Teifion Davies and composer David John Roche. We are really looking forward to performing the music written by the Cerddwn composers when we return to Aberystwyth in July as Artists in Residence at Musicfest (20-27 July 2024), where we'll also be performing our Regenerate: Seasons for Change programme (see page 9).

You might notice that our wind players aren't performing in every piece in tonight's concert – but they have nevertheless been busy this week, not only rehearsing with Sean and workshopping the new Cerddwn compositions, but also performing for patients and families at Bronglais General Hospital in Aberystwyth, through our Hafan relationship.

Thanks for being a Hafan for us, Aberystwyth Arts Centre! And we'll tell you about our other Hafan locations in a future programme.



Yn 2023, penderfynodd Sinfonia Cymru symud allan o'u swyddfa gan ddod yn sefydliad crwydrol. Yn hytrach na thalu am swyddfa, mae'r tîm bellach yn gweithio o gartref, ar daith, ac o'n canolfannau "Hafan" (ysgolion a lleoliadau perfformio) ledled Cymru, ble bynnag sy'n lleol i'n cartrefi. Yr wythnos hon, rydym wedi bod yn ymarfer ein rhaglen gyda Sean Shibe yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, sy'n un o'n canolfannau Hafan.

Mae'r cynllun Hafan yn ein galluogi i ddod i adnabod ein cymunedau'n well – ac mae'r arian rydyn yn ei arbed mewn rhent swyddfa'n cael ei fuddsoddi mewn prosiectau cymunedol sy'n lleol i'r gofodau hyn; mae'r trefniant yn ein galluogi i roi mwy o arian ym mhocedi ein cerddorion ifanc proffesiynol, ac i gwrdd â rhagor o bobl yn y gymuned.

Rydyn ni WRTH EIN BODD â'n perthynas Hafan gyda Chanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Un o'r pethau cyntaf a ddigwyddodd ar ôl i ni gychwyn y bartneriaeth hon oedd eu bod wedi gwahodd Heulwen, Ymgynghorydd Marchnata Sinfonia Cymru, i weithio'n rheolaidd o'u swyddfa Marchnata – gan ddarparu desg, mẁg, a hyd yn oed gwahoddiad i barti Nadolig y staff!

Yr wythnos hon, mae offerynwyr Sinfonia Cymru wedi bod yn gweithio ochr yn ochr â cherddorfa gymunedol Philomusica Aberystwyth, sydd â'i haelodau'n cynnwys myfyrwyr a thrigolion lleol. Maen nhw wedi bod yn cynnal gweithdai ar gerddoriaeth a ysgrifennwyd gan gyfansoddwyr o bob rhan o Gymru fel rhan o Cerddwn – cynllun a drefnir gan Brifysgol Aberystwyth i ddatblygu cyfansoddwyr – mewn cydweithrediad ag Iwan Teifion Davies, yr arweinydd a Chyfarwyddwr Cerdd Prifysgol Aberystwyth, a'r cyfansoddwr David John Roche. Rydyn ni'n edrych ymlaen yn fawr at berfformio gweithiau cyfansoddwyr Cerddwn pan fyddwn yn dychwelyd i Aberystwyth ym mis Gorffennaf fel Artistiaid Preswyl yn y Musicfest (20–27 Gorffennaf 2024), lle byddwn hefyd yn perfformio ein rhaglen Regenerate: Seasons for Change (gweler tudalen 9).

Efallai eich bod wedi sylwi nad yw'r chwythbrennau'n perfformio ym mhob darn yn y cyngerdd heno – er hynny, mae'r chwaraewyr wedi bod yn brysur yr wythnos hon, nid yn unig yn ymarfer gyda Sean ac yn cynnal gweithdai ar gyfansoddiadau newydd Cerddwn, ond hefyd yn perfformio i gleifion a theuluoedd yn Ysbyty Bronglais yn Aberystwyth, drwy ein cynllun Hafan.

# Upcoming Events | Digwyddiadau i Ddod

Wednesday 3 April — Dydd Mercher 3 Ebrill

## Peter & the Wolf, and other stories

**The Riverfront, Newport | Glan yr Afon, Casnewydd | 13:00**

---

Wednesday 3 April — Dydd Mercher 3 Ebrill

## Peter & the Wolf, and other stories

**Monmouthshire Upcycle, Chepstow | Cas-gwent | 18:00**

---

6-12 May — 6-12 Mai

## Mainly Village Halls: String Quartet

**North Wales | Gogledd Cymru**

---

13-19 May — 13-19 Mai

## Mainly Village Halls: Winds of the World

**West Wales | Orllewin Cymru**

---

3-9 June — 3-9 Mehefin

## Mainly Village Halls: String Quartet

**South Wales & the Valleys | De Cymru a'r Cymoedd**

---

11-16 June — 11-16 Mehefin

## Mainly Village Halls: Harp, Cello, Flute

**Mid Wales | Canolbarth Cymru**

---

Friday 14 June — Gydd Gwener 14 Mehefin

## Regenerate: Seasons for Change

**Neuadd Goffa Criccieth Memorial Hall | Time - Amser TBC**

---

Saturday 15 June — Dydd Sadwrn 15 Mehefin

## Regenerate: Seasons for Change

**Royal Welsh College of Music and Drama, Cardiff | Caerdydd | 19:30**

---

Sunday 16 June — Dydd Sul 16 Mehefin

## Regenerate: Seasons for Change

**Neuadd Goffa Pontyberem Memorial Hall | 16:00**

---

22-28 July — 22-28 Gorffennaf

## MusicFest: Various Performances

**Aberystwyth**

---

Monday 5 August — Dydd Llun 5 Awst

## Bwystfilod Aflan | Unclean Beasts
### World Premiere with | gyda Music Theatre Wales

**Pontypridd, Eisteddfod 2024 | Touring Autumn 2024 Hydref**

---

Saturday 10 August — Dydd Sadwrn 10 Awst

## Tlws y Cyfansoddwr
### Three World Premieres with | gyda Tŷ Cerdd

**Pontypridd, Eisteddfod 2024**

Full details and tickets | Manylion llawn a thocynnau:
www.sinfonia.cymru




Feedback | Sylwadau